

Cyngor
Meddygol
Cyffredinol



Cynllun busnes
2019

Gweithio gyda meddygon Gweithio dros gleifion

Cynllun busnes 2019

Mae'n cynllun busnes yn nodi'r hyn yr ydym yn dymuno'i gyflawni yn 2019. Sut y byddwn yn sicrhau cynnydd yn ystod ail blwyddyn ein [strategaeth gorfforaethol 2018–20](#), fel ein bod yn fwy ymatebol i'r amgylchedd sy'n newid. Sut y byddwn yn sicrhau

bod ein swyddogaethau rheoliadol craidd yn deg ac yn effeithiol. A sut y byddwn yn dwyn newidiadau i'r ffordd yr ydym yn gweithio fel sefydliad fel ein bod yn fwy cynhwysol, yn fwy hyblyg ac yn ymgysylltu yn fwy.

Am CMC

Ein mandad

Ein rôl yw diogelu'r cyhoedd* a gweithredu er budd y cyhoedd. Rydym yn gweithio i:

- Ddiogelu, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd,
- Hyrwyddo a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn meddygol, a
- Hyrwyddo a chynnal ymddygiad a safonau proffesiynol cywir ar gyfer aelodau'r proffesiwn hwnnw.

Mae er budd y cyhoedd cael systemau gofal iechyd yn y DU, yn rhai cyhoeddus a phreifat, lle y mae meddygon sy'n meddu ar gymwysterau da yn gweithio yn unol â safonau moesegol a phroffesiynol uchel er mwyn darparu'r gofal meddygol gorau ag y bo modd.

Ein cenhadaeth


Atal niwed ac ysgogi gwelliant ym maes gofal cleifion trwy bennu, arddel a chodi'r safonau ar gyfer addysg ac arfer meddygol ar draws y DU.

* Deddf Meddygol 1983 (fel y'i diwygiwyd)

Ein nodau strategol

Yn 2019, sef ail blwyddyn ein strategaeth gorfforaethol, byddwn yn parhau i ddatblygu ein gwaith er mwyn cynorthwyo meddygon, trwy

gydweithio gydag eraill yn y sector. Byddwn yn gweithio i gyflawni ein pedair ar ddeg budd strategol allweddol:



Nod strategol 1: Cynorthwyo meddygon i ddarparu arfer meddygol da

Er mwyn darparu gofal o ansawdd uchel, rydym yn gwybod bod angen i feddygon deimlo fel pe baent yn cael eu cynorthwyo. Gall nifer o ffactorau effeithio ar hyn, megis ansawdd amgylcheddau addysg a materion yn ymwneud â'r gweithlu.

Cynorthwyo proffesiwn dan bwysau

Yn aml, bydd meddygon yn gweithio mewn amgylcheddau heriol iawn. Yn 2018, lansiom raglen waith fawr yn ystyried sut y gallwn helpu i sicrhau bod meddygon yn teimlo fel pe baent yn cael eu cynorthwyo yn well, ac enw hon yw Cynorthwyo Proffesiwn dan Bwysau ('SAPUP'). Bydd ein gweithgareddau er mwyn datblygu'r gwaith hwn yn 2019 yn cynnwys:

- **Iechyd a lles** – Byddwn yn ystyried y ffordd orau o weithredu argymhellion yr adolygiad a gomisiynwyd gennym ynghylch lles myfyrwyr meddygol a meddygon ar draws y DU, dan arweiniad Athro Michael West a'r Fonesig Denise Coia.
- **Adolygiad o ddynladdiad meddygol** – Bydd yr adolygiad annibynnol a gomisiynwyd gennym dan gadeiryddiaeth Dr Leslie Hamilton, a oedd yn ystyried sut y gweithredir dynladdiad trwy esgeulustod gros a dynladdiad beius mewn perthynas ag arfer meddygol, yn adrodd yn gynnar yn 2019.
- **Mynegi pryderon a gweithredu yn eu cylch** – Byddwn yn parhau i gydweithio gyda BMA, y proffesiwn ehangach, pedair llywodraeth y DU a'n partneriaid cenedlaethol er mwyn gwella'r cysondeb o ran y ffordd y gall pob meddyg gofrestru pryderon sy'n ymwneud â diogelwch ynghylch gweithio mewn amgylcheddau nad oes digon o adnoddau yn cael eu neilltuo iddynt.
- **Arfer myfyriol** – Yn 2018, cyd-gynhyrchom arweiniad newydd er mwyn helpu meddygon a myfyrwyr meddygol i fyfyrrio am eu harfer mewn

ffordd hyderus. Yn 2019, byddwn yn parhau i weithio gyda rheolyddion iechyd eraill ar ddull gweithredu sy'n cynorthwyo gweithgarwch myfyrio wedi'i seilio ar dîm.

- **Tegwch** – Byddwn yn ystyried beth yw'r goblygiadau ar gyfer ein gwaith ni yn dilyn y rhaglen ymchwil annibynnol fawr a gomisiynwyd gennym. Bydd yr ymchwil yn ystyried yr hyn sy'n ysgogi'r anghyfartalwch rhwng grwpiau o feddygon sy'n cael eu cyfeirio atom oherwydd pryderon am eu haddasrwydd i wneud gwaith meddygol, ac fe'i arweinir gan Roger Kline a Dr Doyin Atewologun. Caiff yr ymchwil ei gwblhau yn gynnar yn 2019. Law yn llaw â hyn, rydym yn parhau i ymgorffori egwyddorion ffactorau dynol yn ein prif swyddogaethau – megis y canlyniadau yr ydym yn eu disgwyl yn ystod pob cam o addysg a hyfforddiant meddygol yn y DU, mewn meysydd sy'n hollbwysig i ddarpariaeth gofal clinigol effeithiol megis gwaith tîm, cyfathrebu a defnyddio offer. Yn 2019, byddwn yn cyflwyno ein hyfforddiant newydd hefyd ar gyfer ein penderfynwyr addasrwydd i wneud gwaith meddygol mewn ffactorau dynol
- **Ymsefydlu a'r rhai sy'n dychwelyd** – Byddwn yn parhau i weithio gyda darparwyr gofal iechyd i amlygu pwysigrwydd ein safonau ac er mwyn sicrhau bod pob meddyg yn cael eu cynorthwyo pan fyddant yn cychwyn mewn rôl newydd, neu pan fyddant yn dychwelyd i weithio ar ôl treulio cyfnod i ffwrdd. Fel rhan o hyn, byddwn yn parhau i ehangu'r mynediad i'n gweithdai am ddim, Croeso i Arfer yn y DU, sy'n cyfleu ein harweiniad mewn ffordd ymarferol trwy ddefnyddio sefyllfaoedd rhyngweithiol. Yn ychwanegol i SAPUP, byddwn yn gweithio hefyd i wella'r cymorth ar gyfer meddygon trwy:
- **Weithio i sicrhau bod hyfforddiant ôl-raddedig yn fwy hyblyg.** Yn 2019, byddwn yn cwblhau gwaith gydag Academi y Colegau

Brenhinol Meddygol ac yn cyhoeddi arweiniad wedi'i ddiweddarau ynghylch datblygu cwricwla a rennir a'r broses ar gyfer trosglwyddo cymwyseddau rhwng meysydd arbenigol.

- **Lansio arweiniad diwygiedig ar gyfer ysgolion meddygol ynghylch cynorthwyo myfyrwyr sydd â materion yn ymwneud ag iechyd ac anabledd.** Ymgynghorom yn eang am yr arweiniad hwn, *Pyrth i'r proffesiwn*, yn 2018.
- **Datblygu ein cynlluniau er mwyn cyflwyno trefniant o ran cymwysterau.** Cynlluniwyd y trefniant o ran cymwysterau er mwyn rhoi sylw i risgiau sylweddol i ddiogelwch cleifion mewn meysydd lle y mae'r gweithgarwch rheoleiddio yn gyfyngedig, megis ymyriadau cosmetig. Yn

ogystal, bydd yn helpu i roi sylw i fylchau yn y gwasanaeth trwy alluogi hyfforddiant mewn meysydd dewisol er mwyn bodloni anghenion cleifion a gwasanaethau, gan gynnig dysgu gydol oes a datblygiad gyrfa mwy hyblyg i feddygon. Rydym yn cynnig y bydd cydrannau dewisol o fewn hyfforddiant arbenigol neu feysydd sylweddol sy'n bodoli y tu allan i hyfforddiant yn datblygu i fod yn gymwysterau. Byddwn yn lansio'r fframwaith terfynol yn ystod y Gwanwyn 2019 ar ôl ymgysylltu'n eang gyda'n rhanddeiliaid.

- **Parhau ein gwaith i ddarparu Asesu Trwyddedu Meddygol (ATM),** a fydd yn pennu trothwy cyffredin ar gyfer arfer diogel. Byddwn

Nod strategol 2: Cryfhau gweithgarwch cydweithio gyda'n partneriaid rheoliadol ar draws y gwasanaethau iechyd

Byddwn yn parhau i gryfhau gweithgarwch cydweithio gyda'n partneriaid ar draws y systemau iechyd er mwyn lleihau risg niwed i gleifion a meddygon, lleihau baich dianghenraid ac er mwyn darparu ymyriadau rheoliadol mwy cymesur ac sydd wedi'u targedu yn fwy. Byddwn yn gweithio tuag at hyn yn 2019 trwy:

- **Gyflwyno ein model ar gyfer 'effaith ar y cyd'.** Ni allwn gyflawni ein nodau strategol heb gydweithio gydag eraill mewn ffordd effeithiol. Er mwyn cyflawni hyn, rydym wedi datblygu model er mwyn dadansoddi sut y gallwn ddefnyddio ein perthnasoedd, ein data a'n gwybodaeth er mwyn gwella ein heffeithiolrwydd ar y cyd yn y ffordd orau.
- **Parhau i ddatblygu ein rhaglen Lleol yn Gyntaf.** Yn 2019, bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod mwy o gymorth ar gael yn lleol, trwy ymestyn ein gweithgarwch ymgysylltu gyda swyddogion cyfrifol ymhellach. Ein nod yw lleihau dyblygu rhwng ymchwiliadau lleol a chenedlaethol.

Byddwn yn codi ymwybyddiaeth o egwyddorion ymchwiliad da, ac yn monitro'r graddau y cânt eu gweithredu mewn gwirionedd.

- **Manteisio i'r eithaf ar botensial ein swyddfeydd datganoledig a'n grymoedd maes.** Trwy sicrhau bod ein gwasanaethau cyswllt ac elfennau ein swyddogaethau allweddol yn cydfynd yn agosach gyda rhanbarthau yn Lloegr, gallwn alluogi safbwynt a rennir o risg o fewn y system gyda'n partneriaid rheoliadol, gan ymateb yn well i'r pryderon y byddwn yn eu nodi. Mae hyn yn datblygu ein gwaith i sicrhau bod ein dull gweithredu rheoliadol yn ystyried anghenion a nodweddion gwahanol ffyrdd o weithio a systemau gofal iechyd sy'n gweithio ar draws y DU.

Nod strategol 3: Cryfhau ein perthynas gyda'r cyhoedd a'r proffesiwn

Rydym yn ceisio cael ein cydnabod gan yr holl randdeiliaid fel corff annibynnol ac awdurdodol sy'n barod i siarad a gweithredu er budd diogelwch cleifion a gofal o ansawdd uchel. Yn 2019, byddwn yn cyflawni hyn trwy:

- **Wella'r ffordd yr ydym yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu**, fel y gallwn uniaethu gyda meddygon, cleifion ac eraill mewn ffyrdd sy'n cael mwy o effaith a sicrhau bod safbwyntiau ein rhanddeiliaid wrth wraidd ein model rheoliadol. Byddwn yn diwygio ein gweithgarwch ymgysylltu gyda chleifion a'r cyhoedd, gan benodi hyrwyddwr cleifion er mwyn sicrhau y gellir ystyried yr amrywiaeth o ran anghenion cleifion yn ein gwaith. Yn ogystal, mae'n gwaith i Gynorthwyo Proffesiwn dan Bwysau, a amlinellwyd dan Nod strategol 1, yn allweddol i'r ffordd y byddwn yn gwrandao ar feddygon ac yn dysgu ganddynt.
- **Defnyddio ein data a'n gwybodaeth er mwyn cyfrannu at y ffordd yr ydym yn gweithio.** Bydd ein gwaith i ddatblygu ein systemau mewnol yn helpu i sicrhau bod polisiau a phrosesau newydd yn wybodus, yn berthnasol ac yn effeithiol.
- **Hyfforddi ein holl benderfynwyr addasrwydd i wneud gwaith meddygol, ein harchwilwyr achosion a'n harbenigwyr clinigol ynghylch ffactorau dynol.** Fel y nodir dan ein gwaith ar Gynorthwyo Proffesiwn dan Bwysau, byddwn yn ystyried cyngor ynghylch addasu prosesau ymchwilio hefyd, fel rhan o drefniant cydweithio y cytunwyd arno gydag Academi Diogelwch Cleifion Prifysgol Rhydychen, a fydd yn helpu i sicrhau bod ein prosesau a'n penderfyniadau yn cael eu seilio ar realiti arfer clinigol. Mae modd gweld rhagor o wybodaeth ar [ein gwefan yma](#).

Nod strategol 4: Bodloni anghenion gwasanaethau iechyd ar draws pedair gwlad y DU, sy'n newid

Nid yw dyfodol y berthynas rhwng y DU ac UE a statws y gydnabyddiaeth ar gyfer cymwysterau proffesiynol ar ôl gadael UE yn glir ar ddiwedd 2018, ond mae'r effeithiau yn debygol o fod yn bellgyrhaeddol, gan gynnig ansicrwydd sylweddol ynghylch y goblygiadau ar gyfer gwaith CMC yn y dyfodol. Yn 2019, byddwn yn bodloni'r sialensiau hyn trwy:

- **Barhau i weithio gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ('DHSC') ar ddiwygiadau i'r Ddeddf Feddygol cyn i'r DU adael UE.** Rydym wedi datblygu cynlluniau wrth gefn cychwynnol er mwyn nodi'r newidiadau i bolisiau, prosesau a systemau cofrestru CMC sy'n ofynnol ar gyfer pob model Brexit posibl. Fodd bynnag, mae graddau'r cynlluniau hyn yn gyfyngedig oherwydd yr ansicrwydd parhaus am y model terfynol, gan gynnwys ffactorau megis statws cymwysterau proffesiynol yn y dyfodol yn ystod y cyfnod ar ôl Brexit. Felly, rydym yn parhau i deimlo'n bryderus iawn ynghylch y risg o gael amserlen fer iawn er mwyn gweithredu cynlluniau wrth gefn, yn enwedig diwygiadau i systemau, ac rydym wedi amlygu'r angen am eglurder ar gyfer [meddygon Ewropeaidd ar ôl Brexit](#). Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos gyda DHSC i gynnig sylwadau cyfreithiol a pholisi manwl am y cynigion ynghylch diwygiadau i'r Ddeddf Feddygol.
- **Gweithio gyda'r llywodraeth ac eraill er mwyn dylanwadu ar a chynorthwyo cyfleoedd ar gyfer newid deddfwriaethol.** Mae diwygio deddfwriaethol yn hanfodol er mwyn canlyn ein huchelgais o sicrhau model rheoliadol mwy hyblyg, cymesur ac ystwyth. Os bydd y llywodraeth yn ymgynghori am y broses o reoleiddio Cymdeithion Meddygon fel y disgwyl yn ystod 2019, byddwn yn nodi cynigion fel bod CMC yn cael ei ystyried ar gyfer y cyfrifoldeb newydd hwn.
- **Cyfrannu at ddatrysiadau ar gyfer materion sy'n ymwneud â'r gweithlu.** Byddwn yn sicrhau bod ymrwymadau presennol megis adolygu llwybrau hyfforddiant a threfniant o ran cymwysterau yn helpu i roi sylw i faterion sy'n ymwneud â'r gweithlu pryd bynnag y bo modd. Byddwn yn archwilio gyda phartneriaid pa hyblygrwydd ychwanegol sy'n bosibl gyda rhestr y perfformwyr. Rydym yn ceisio diwygio deddfwriaethol er mwyn helpu i symleiddio'r prosesau ymhellach ar gyfer meddygon sy'n dymuno ymuno â'r gofrestr arbenigol neu gofrestr y meddygon teulu trwy gyfrwng llwybr cyfatebol, ac rydym yn ehangu gallu ein Canolfan Asesu Clinigol fel y nodir isod.
- **Cynyddu ein gallu i ddarparu asesiadau'r Bwrdd Asesu Ieithyddol Proffesiynol (PLAB),** y mae angen i bob meddyg sy'n Raddedig Meddygol Rhyngwladol (IMG) ei sefyll er mwyn gweithio yn y DU. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn y galw am PLAB, a gyflawnir gan ein Canolfan Asesu Clinigol. Bydd ehangu'r gallu hwn yn 2019 yn sicrhau y gallwn barhau i hwyluso llif meddygon sy'n meddu ar gymwysterau rhyngwladol i mewn i weithlu y DU.
- **Ystyried sut y mae telefeddygaeth, deallusrwydd artiffisial ac iechyd digidol** yn effeithio ar arfer meddygol nawr, ac ar ddatblygiadau yn y dyfodol, fel y gallwn sicrhau bod ein model rheoliadol yn cael ei addasu i ffyrdd newydd o weithio.

Cynnal a chynyddu ein swyddogaethau rheoliadol craidd

Er bod ein strategaeth yn ymwneud â newid y ffordd yr ydym yn rheoleiddio, rydym yn parhau i roi blaenoriaeth i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel ar draws ein swyddogaethau rheoliadol craidd. Rydym yn ceisio sicrhau rhagoriaeth weithredol ym mhob maes ac rydym yn monitro ein perfformiad yn barhaus er mwyn sicrhau ein bod yn dysgu ac yn gwella, ac yn sicrhau lefelau uchel o ran y gwasanaeth ar gyfer cwsmeriaid. Mae'r adrannau isod yn disgrifio'r estyniadau y byddwn yn eu cyflwyno yn 2019.

Pennu'r safonau y mae angen i feddygon eu dilyn, a sicrhau eu bod yn parhau i fodloni'r safonau hyn trwy gydol eu gyrfaedd

Mae'n safonau yn diffinio'r hyn sy'n gwneud meddyg da. Maent yn nodi'r gwerthoedd proffesiynol, y wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad sy'n ofynnol gan bob meddyg sy'n gweithio yn y DU.

- Lansio arweiniad diwygiedig ynghylch caniatâd, sy'n amlinellu'r hyn y dylai meddygon ei ystyried wrth drafod triniaeth a gofal gyda chleifion. Bydd yn cynnwys mwy o gyngor am y camau i'w cymryd dan wahanol amgylchiadau, fel ei bod yn haws i feddygon ei weithredu mewn sefyllfaoedd go iawn.
- Sicrhau bod ein harweiniad ynghylch safonau a moeseg yn hygyrch ac yn berthnasol. Byddwn yn ystyried ffyrdd o wella amrediad yr offerynnau, gan gynnwys ein hap safonau digidol a gynigiwn er mwyn helpu meddygon i weithredu ein harweiniad mewn sefyllfaoedd go iawn ar draws amrediad o sefyllfaoedd.

- Adolygu ein dull gweithredu ar gyfer sicrhau ansawdd addysg a hyfforddiant. Bydd hyn yn ystyried sut y gallwn wneud y defnydd gorau o'n data a'n gwybodaeth, cryfhau ein perthnasoedd gyda rhanddeiliaid a gwella ein prosesau. Y nod yw sicrhau bod ein gweithgareddau sicrhau yn gyson ac yn sicrhau atebolrwydd, gan fod yn gymesur a chydweithio ar yr un pryd.
- Gwneud gwelliannau i drefniadau sicrhau ansawdd arfarniadau meddygon nad oes ganddynt gysylltiad rhagnodedig gydag RO.

Rydym yn archwilio manylion personol a chymwysterau pob meddyg cyn iddynt ymuno â'r gofrestr. Yn 2019, byddwn yn:

- Adolygu llwybrau cofrestru ar gyfer meddygon IMG. Rydym yn dymuno sicrhau bod ein prosesau yn parhau i fod yn gadarn ac yn addas i'r diben, er mwyn cyd-fynd â'r cynigion yr ydym yn eu datblygu ar gyfer ATM ar hyn o bryd – ac yn ôl yr angen, er mwyn ystyried newidiadau sy'n deillio o adael UE. Yn ogystal, byddwn yn parhau i ddatblygu'r dewisiadau yr ydym yn eu ffafrio er mwyn diwygio Ardystio Cymhwysra Cofrestru Arbenigol ac Ardystio Cymhwysra Cofrestru Meddygon Teulu. Mae angen newid deddfwriaethol arnom er mwyn gwneud unrhyw welliannau pellach yn y maes hwn, a bydd ein gwaith paratoi yn ein rhoi yn y sefyllfa orau os bydd y cyfle hwn yn codi yn ystod 2019.
- Paratoi ar gyfer cyflwyno cynllun indemnio ac yswiriant newydd y wladwriaeth ar gyfer meddygon teulu yng Nghymru a Lloegr, ar ôl cael eglurhad pellach gan DHSC ac Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Byddai cynllun o'r fath yn cynnig

rhywfaint o sicrwydd pellach hefyd ynghylch y sicrwydd indemniad ac yswiriant ar gyfer meddygon sy'n gweithio ym maes gofal sylfaenol yn y gwledydd hyn.

Gweithredu er mwyn atal meddygon rhag peryglu diogelwch cleifion neu hyder y cyhoedd mewn meddygon

Pan fynegir pryder difrifol am ymddygiad, iechyd neu berfformiad meddyg, byddwn yn ymchwilio i weld a yw'r meddyg yn peryglu diogelwch cleifion, neu hyder y cyhoedd mewn meddygon. Yn 2019, byddwn yn:

- Datblygu ein hamrediad o arweiniad er mwyn cynorthwyo penderfyniadau cyson ac amserol gan Dribiwnlysoedd. Bydd hyn yn cynnwys diwygio arweiniad ynghylch sancsiynau, adfer a dileu gwirfoddol – gan ystyried sut i sicrhau penderfyniadau cymesur a chyson ynghylch sancsiynau, trwy ymgynghori â'r cyhoedd yn ôl yr angen.

- Gwerthuso ein proses ymholiadau amodol. Rydym yn hidlo'r cwynion yr ydym yn eu cael am feddygon, trwy wneud ymholiadau cynnar er mwyn ein helpu i benderfynu a oes angen i ni ymchwilio i gŵyn neu ei chwblhau heb gymryd unrhyw gam. Mae hyn yn helpu i leihau'r straen dianghenraid ar y rhai sy'n gysylltiedig ag ymchwiliad. Yn 2019, byddwn yn asesu a oes potensial i ehangu gweithrediad y broses hon ymhellach fyth.
- Sicrhau y cynhelir asesiadau am safon perfformiad proffesiynol meddyg yn fewnol, fel y gallwn gael gwell sicrwydd eu bod yn cael eu cynnal mewn ffordd gyson ac effeithlon.

Rhaglen drawsnewid

Sefydlwyd ein Rhaglen Drawsnewid yn 2017 ac mae'n newid y ffordd yr ydym yn gweithio a'r ffordd y datblygir ein gallu mewnol er mwyn sicrhau y gallwn gyflawni ein strategaeth gorfforaethol uchelgeisiol. Rydym yn dymuno gwneud mwy o gydweithio a bod yn fwy ymatebol, gan fuddsoddi yn ein hased gorau; ein pobl. Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein pedair ffrwd waith trwy gydol 2019:

- **Grymuso** – Grymuso a datblygu ein pobl
- **Ymgysylltu** – Mwy o ymgysylltu gyda'r system gofal iechyd
- **Cyflawni** – Cyflymder, hyblygrwydd a gweithio ar draws y sefydliad
- **Darlunio** – Ymdeimlad mwy clir o'r diben; mwy o flaenoriaethu a mesur yr effaith.